**Bridgend County Borough Council**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

# Llyfr Cyllideb 2022-23



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Cyhoeddwyd Mawrth 2022

# Cynnwys


| Adran 1. Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2022-23 | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1.1 | Cyflwyniad | 3 |
| 1.2 | Ffeithiau Allweddol am Gyllideb 2022-23 | 4 |
| 1.3 | Trosolwg ariannol | 5-7 |
| 1.4 | Ariannu gwasanaethau'r cyngor | 8-9 |

| Adran 2. Crynodeb o'r taliadau i'w codi | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 2.1 | Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau | 10-11 |
| 2.2 | Gofyniad y dreth gyngor 2022-23 | 12 |
| 2.3 | % Cynnydd band D y dreth gyngor 2022-23 | 12-13 |
| 2.4 | Taliadau'r dreth gyngor band D yn ôl ardal cyngor cymuned 2022-23 | 13 |
| 2.5 | Ardrethi annomestig (busnes) (NDR) | 14 |

| Adran 3. Cyllideb refeniw 2022-23 | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 3.1 | Cyllideb gros i gyllideb net | 15 |
| 3.2 | Cyllideb refeniw gros | 16 |
| | • O ble y daw'r arian | 16 |
| | • O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y cyngor | 16 |
| | • Lle mae'r arian yn cael ei wario - yn ôl categori gwariant | 17 |
| | • Lle mae'r arian yn cael ei wario - yn ôl maes gwasanaeth | 18 |
| 3.3 | Cyllideb refeniw net | 19 |
| | • Ariannu’r gyllideb refeniw net | 19 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth | 19-20 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant | 20 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl amcan llesiant | 20-21 |
| | • Dadansoddiad tybiannol o'r dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth | 21 |
| 3.4 | Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth | 22-37 |

| Adran 4. Cyllideb gyfalaf 2022-23 | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 4.1 | Cyllideb gyfalaf 2022-23 | 38 |
| 4.2 | Ariannu'r rhaglen gyfalaf | 38-39 |
| 4.3 | Dyrannu'r gyllideb gyfalaf | 39 |
| 4.4 | Gwariant cyfalaf yn ôl amcan llesiant | 40 |

| Adran 5. Cyngor bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr - ystadegau allweddol | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 5.1 | Cyngor bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 41-42 |
| 5.2 | Ystadegau gwasanaethau | 42-47 |

| Adran 6. Ystadegau cymharol Cymru | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 6.1 | Ystadegau cymharol Cymru | 48-50 |

| Adran 7. Geirfa | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Geirfa | 51-53 |

**ADRAN 1.**

# Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2022-23

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2022-23 ar ffurf gryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall. Mae'n adlewyrchu newid bach yng nghyfanswm y gyllideb* o ganlyniad i gyhoeddi Setliad Llywodraeth Leol Terfynol Llywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2022, ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r gyllideb ar 23 Chwefror 2022. Mae'n cynnwys crynodeb o'r gyllideb a gwybodaeth arall am ariannu'r gyllideb gyffredinol, gan gynnwys y ffordd y caiff y Dreth Gyngor ei phennu. Nid yw'r Dreth Gyngor wedi newid o ganlyniad i Setliad Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol. Mae'n cynnwys y Rhaglen Gyfalaf sydd ar waith tan 2031-32 hefyd. Diben yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon yw helpu'r cyhoedd, Aelodau, Prif Swyddogion a'u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol a pharatoi ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

1.1.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am gynnwys y llyfryn hwn at y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, a Swyddog Adran 151, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB neu drwy e-bostio talktous@bridgend.gov.uk.

** Roedd y Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn cynnwys cynnydd o £4,336 yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2022-23, o'i gymharu â'r ffigur sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2022.*

1.2 **Ffeithiau allweddol am y gyllideb 2022-23**



## 1.3 Trosolwg ariannol

1.3.1 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud £62 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Er y bwriedir i gyllideb refeniw net y Cyngor fod yn £319.514 miliwn ar gyfer 2022-23, mae cyfanswm ei wariant yn llawer uwch na hyn. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan grantiau neu ffioedd a thaliadau penodol, bydd cyllideb gros y Cyngor oddeutu £459 miliwn yn 2022-23.

1.3.2 Mae cyllideb refeniw flynyddol yr awdurdod lleol yn cwmpasu costau rhedeg yr awdurdod lleol o ddydd i ddydd (gan gynnwys cyflogau staff, gwasanaethau dan gontract, cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau, costau gweithredol ac ati). Mae £197 miliwn o'r gyllideb gros yn cael ei wario ar staff y Cyngor ei hun gan gynnwys athrawon a staff cymorth ysgolion. Mae llawer o gostau'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol hefyd yn gysylltiedig â chyflogau – mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gweithredwyr casglu gwastraff, gweithwyr gofal cartref, staff hamdden a gofalwyr maeth.  Mae'r Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran o Ardrethi Annomestig. Mae'n ategu hyn drwy gasglu'r dreth gyngor, grantiau eraill a ffioedd a thaliadau. Mae'r dreth gyngor yn dâl y mae awdurdodau lleol yn ei godi i helpu i dalu am eu gwasanaethau. Mae cyfran y dreth gyngor sy'n ofynnol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ariannu 27% o'r gyllideb net ar hyn o bryd.

1.3.3 Yn ogystal â bod â llai o incwm gwirioneddol i ariannu gwasanaethau, mae mathau eraill o bwysau sy'n rhoi straen ar adnoddau. Dyma rai ohonynt:

- Newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu digartrefedd, cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran ymateb i newid hinsawdd a bodloni targedau carbon sero net, goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a newidiadau deddfwriaethol mewn gofal cymdeithasol gan gynnwys gofynion diogelu newydd ar gyfer amddiffyn oedolion a newidiadau i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer plant.

- Newidiadau demograffig – mae'r boblogaeth yn cynyddu, ac mae pobl yn byw'n hirach sy'n amlwg yn newyddion da ond gall hynny olygu mwy o ddibyniaeth hefyd wrth i bobl fyw gyda chyflyrau mwy cymhleth neu luosog sy'n gofyn am ofal a chymorth cymdeithasol. Gwaethygwyd hyn gan y pandemig gan fod oedi wedi bod o ran gallu cael triniaeth gan y GIG ac effaith cyfyngiadau symud estynedig ar iechyd corfforol a meddyliol. Yn ogystal, mae'r cymhlethdodau a'r heriau i blant a theuluoedd yn amlwg iawn.

- Cynnydd yn nifer y disgyblion yn ein hysgolion, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau ysgolion, ynghyd â chynnydd yn yr hawl i brydau ysgol am ddim sy'n dod â phwysau ariannol ychwanegol.

- Yn fwy diweddar, gostyngiad yn swm y dreth gyngor sy'n cael ei chasglu, oherwydd yr amgylchiadau economaidd anodd y mae pobl yn eu hwynebu. Mae

hyn yn ychwanegol at gynnydd yng nghymorth y dreth gyngor wrth i fwy o bobl gael eu hunain ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau yn dilyn diwedd y cynllun ffyrlo.

1.3.4 Mae'r gwaith o gynllunio'r cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn parhau'n fwy ansicr nag arfer oherwydd effaith y pandemig Covid-19 byd-eang, sy'n ychwanegol at yr ansicrwydd parhaus a'r pwysau ariannol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Er bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ar y cyfan, wedi rhoi cefnogaeth i ymdopi â’r costau a'r beichiau ychwanegol sydd wedi ddod i'r amlwg o ganlyniad i Covid, ac wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau a gododd yn uniongyrchol, rydym yn ymwybodol na fydd yr arian hwn ar gael wrth symud ymlaen. Yn benodol, rhagwelir y gallai rhywfaint o'r effaith ar lefelau incwm ym meysydd hamdden, parcio ceir ac incwm rhent, er enghraifft, fod yn broblem tymor canolig. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd galwadau ychwanegol ar gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor o ystyried effaith economaidd anochel y pandemig a diwedd y cynllun ffyrlo, ac amcangyfrifir bod lefel casglu'r dreth gyngor yn is na lefelau cyn y pandemig.

Yn ychwanegol at hynny, mae gwariant parhaus ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel y cynllun profi, olrhain a diogelu, y defnydd o gyfarpar diogelu personol a threfniadau ar gyfer y rhaglen frechu gyhoeddus, yn ogystal â disgwyliadau eraill o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn fwy cadarn, a chefnogi gofal cymdeithasol - maes sy'n profi costau cynyddol - a mwy o angen a galw am wasanaethau, yn debygol o fod yn sylweddol. Dan yr amgylchiadau hyn, mae pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2022-23 hyd yn oed yn fwy heriol nag arfer, yn enwedig ar ôl 10 mlynedd o arbedion sylweddol yn y gyllideb yn ystod blynyddoedd y cyni.

1.3.5 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Corfforaethol sy'n nodi'r dulliau y bydd yn eu cymryd i reoli'r pwysau hyn gan barhau hefyd i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion a chymunedau Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma'r dulliau gweithredu:

- Er ei fod yn sefydliad mawr a chymhleth, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i weithio fel un sefydliad unigol. Mae hynny'n golygu osgoi dyblygu a thrin data ddwywaith drwy rannu systemau a phrosesau. Nid yw hyn bob amser mor hawdd ag y mae'n ymddangos oherwydd yn aml mae rheolau neu gyfleoedd gwahanol yn berthnasol i wahanol wasanaethau. Serch hynny, mae gweithredu fel 'Un Cyngor yn cydweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' yn rhan annatod o weledigaeth y Cyngor.

- Lle bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i ddod yn fwy gwydn drwy greu eu hatebion eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gynaliadwy i'r Cyngor barhau i geisio diwallu'r holl anghenion sy'n codi ac oherwydd bod yna gapasiti, doniau a syniadau'n bodoli mewn rhannau eraill o'r gymuned y gellir eu hannog i fod â rhan weithredol ac effeithiol wrth gynnal ac yn aml wrth wella gwasanaethau lleol. Mae gan y Cyngor rôl o ran annog, galluogi ac arwain y dull hwn ac mae wedi mabwysiadu hyn fel un o'i egwyddorion sylfaenol.

- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar y cymunedau a'r unigolion mwyaf anghenus. Mae gan rannau o'n cymuned broblemau hirdymor o ran tlodi ac anfantais. Nid yw'r atebion i hyn dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gyfan gwbl (er enghraifft, effeithiau newidiadau i'r system les) ond lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cytuno ei fod am leddfu problemau yn y meysydd hyn a datblygu atebion cynaliadwy tymor hwy. Bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ar gyrff cyhoeddus, a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021, yn adlewyrchu'r nodau hyn.

- Mae gan y Cyngor dri amcan llesiant sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac egwyddorion eraill. Wrth bennu ein hamcanion llesiant, rydym yn nodi'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni a pham ei fod yn bwysig.  Dyma'r Amcanion Llesiant

  I. Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus,
  II. Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach a mwy gwydn, a
  III. Gwell defnydd o adnoddau. *

  ** Mae'r amcan "Gwell Defnydd o Adnoddau" yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ei holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mewn ffordd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ac yn cefnogi'r gwaith o greu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i gyflawni blaenoriaethau llesiant y Cyngor.*

- Mae ein hamcanion llesiant wedi'u hintegreiddio, sy'n sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni canlyniadau a rennir.

## 1.4 Ariannu gwasanaethau'r cyngor

### 1.4.1 Gwasanaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n galluogi cannoedd o wasanaethau ar draws yr holl gymunedau amrywiol yn y fwrdeistref sirol ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau fel addysg, gofal cymdeithasol, priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy, diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, cofrestryddion a gwasanaethau hamdden, y celfyddydau a llyfrgelloedd drwy ein partneriaid HALO ac Awen. Mae'r Cyngor yn gwneud dau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

### 1.4.2 Gwariant refeniw

Mae gwariant refeniw yn cynnwys gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu a chyfarpar. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a dderbynnir gan dalwyr y dreth gyngor, talwyr ardrethi busnes, y ffioedd a'r taliadau a godir am wasanaethau penodol ac o grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

### 1.4.3 Gwariant cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, cynlluniau ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn cynnig manteision i'r gymuned am nifer o flynyddoedd a chaiff y gwariant ei ariannu'n bennaf drwy fenthyca, grantiau cyfalaf a gwerthu tir ac adeiladau diangen.

### 1.4.4 Ffynonellau cyllid

Y prif ffynonellau incwm y mae'r Cyngor yn eu derbyn yw ffioedd a thaliadau, grantiau, ardrethi busnes a'r dreth gyngor. Ceir diffiniad o'r rhain isod:

- **Ffioedd a thaliadau**

  Mae ffynonellau incwm o ffioedd a thaliadau yn amrywio o daliadau am barcio i lety preswyl i'r henoed, taliadau prydau ysgol, taliadau cynllunio, taliadau am gasglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau ac incwm o osod eiddo masnachol fel unedau diwydiannol.

- **Grantiau'r Llywodraeth**

  Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys y grant unigol mwyaf, sef y Grant Cynnal Refeniw, y gellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben y maent yn ei ddewis wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a ddarperir i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Yn ogystal â'r cyllid y mae awdurdodau'n ei gael gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u neilltuo gan gyrff eraill y llywodraeth (dim ond at y dibenion penodol y cânt eu darparu y gellir defnyddio'r grantiau hyn).

- Ardrethi busnes

  Mae awdurdodau lleol yn cael incwm hefyd drwy Lywodraeth Cymru o ardrethi annomestig (busnes) a bennir yn genedlaethol.

- Cyllid cyfalaf

  Mae awdurdodau lleol yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, a gallant bennu faint y gallant fforddio ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad darbodus o'u harian gan ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol (Cod Materion Ariannol). Cyfeirir at arian a fenthycir dan y cod fel Benthyca Darbodus.

- **Y Dreth Gyngor**

  Ar ôl ystyried incwm o ffioedd a thaliadau, grantiau'r llywodraeth ac ardrethi annomestig, ariennir gwariant refeniw gan y dreth gyngor, a godir ar bob eiddo yn ardal y Cyngor, yn amodol ar ostyngiadau ac eithriadau penodol. Y dreth gyngor yw'r unig elfen o gyllid y cyngor sy'n seiliedig ar dreth, nad yw'n cael ei phennu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2022-23, mae incwm y dreth gyngor yn cynrychioli 27% o wariant refeniw net y cyngor.

**ADRAN 2.**

# Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi


## 2.1 Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau

2.1.1 Mae faint o'r dreth gyngor y mae preswylydd yn ei dalu yn dibynnu ar y band y mae ei eiddo/annedd ynddo. Dyrennir pob annedd i un o naw band gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, cyfrifwyd y dreth gyngor gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio gwerthoedd tai 2003. Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn asesu eiddo pan ofynnir iddo wneud hynny, er enghraifft yn ystod apêl y Dreth Gyngor neu wrth adolygu band.

2.1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion canran yr anheddau cyngor yn ôl band y dreth gyngor.

| Band | Ystod Gwerth Anheddau (Gwerth Eiddo ar 1 Ebrill 2003) | Cymhareb | Nifer yr Anheddau | % yr anheddau yn y band |
|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,188 | 15.86% |
| B | £44,001 i £65,000 | 7/9 | 14,970 | 23.31% |
| C | £65,001 i £91,000 | 8/9 | 14,412 | 22.44% |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **9/9** | 10,728 | 16.70% |
| E | £123,001 i £162,000 | 11/9 | 7,777 | 12.11% |
| F | £162,001 i £223,000 | 13/9 | 4,313 | 6.71% |
| G | £223,001 i £324,000 | 15/9 | 1,459 | 2.27% |
| H | £324,001 i £424,000 | 18/9 | 284 | 0.44% |
| I | £424,001 ac uwch | 21/9 | 101 | 0.16% |

Mae'r siart isod yn dangos canran anheddau'r dreth gyngor ym mhob band.




**Mae 61.6% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r hyn sy'n cyfateb i 'Band D' sef y band a ddefnyddir i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor ar draws Awdurdodau Lleol.**

2.1.3 Mae'r tabl isod yn dangos lefel y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band prisio. Ar gyfer eiddo Band D, sy'n cyfrif am 16.7% o'r eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, elfen y cyngor o'r dreth gyngor yw £1,597.01.

### Ystod Gwerthoedd Bandiau'r Dreth Gyngor 2022-23 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Band | Ystod Gwerth Anheddau (Gwerth ar 1.4.2003) | Y Dreth Gyngor 2021-22 £ | Y Dreth Gyngor 2022-23 £ |
|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 1,064.67 | 1,064.67 |
| B | £44,001 i £65,000 | 1,242.12 | 1,242.12 |
| C | £65,001 i £91,000 | 1,419.56 | 1,419.56 |
| **D** | **£91,001 i £123,00** | **1,597.01** | **1,597.01** |
| E | £123,001 i £162,000 | 1,951.90 | 1,951.90 |
| F | £162,001 i £223,000 | 2,306.79 | 2,306.79 |
| G | £223,001 i £324,000 | 2,661.68 | 2,661.68 |
| H | £324,001 i £424,000 | 3,194.02 | 3,194.02 |
| I | £424,001 ac uwch | 3,726.36 | 3,726.36 |

2.1.4 Mae bil y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) yn cynnwys taliadau a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chynghorau Cymuned/Tref. Mae'r Cyngor yn casglu'r taliadau a godir ar gyfer y ddau gorff arall drwy fecanwaith y dreth gyngor. Yna telir yr arian a gesglir i'r cyrff perthnasol yn unol â'r hyn y maent wedi'i gynnwys yn eu cyllideb i godi ar aelwydydd ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 2.2 Gofyniad y dreth gyngor 2022-23


2.2.1 Er mwyn cwblhau ei gyllideb, mae'n rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad y dreth gyngor – sef y swm o arian sydd i'w godi gan y dreth gyngor. Mae hyn ar ôl ariannu'r holl ofynion ac asesu lefelau incwm gan y llywodraeth ac o fannau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r dreth gyngor yn cyfrif am 27% o'r arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn. Mae lefel y cynnydd yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor Gros ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2022-23 yw 55,967.70 eiddo cyfwerth â Band D a'r gyfradd gasglu a amcangyfrifir yw 97.5%. Felly, sylfaen net y dreth gyngor yw 54,568.51 sy'n rhoi treth gyngor Band D o £1,597.01, fel y nodir yn y tabl isod:

**Cyfrifir y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr isod:**

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2021-22 £ | 2022-23 £ |
|---|---|---|
| Gwariant a godwyd ar y Cyfrif Refeniw | 435,386,625 | 459,188,753 |
| **Incwm a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw** | **-136,430,380** | **-139,674,340** |
| **Cyllideb Gwariant Net** | **298,956,245** | **319,514,413** |
| Wedi'i ariannu'n rhannol gan: | | |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | -163,404,268 | -179,595,330 |
| Dosbarthiad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes) | -48,787,286 | -52,772,627 |
| **Swm i'w ariannu gan CBSPaO** | **86,764,691** | **87,146,456** |
| Gofyniad y Dreth Gyngor | 86,764,691 | 87,146,456 |
| Sylfaen y Dreth Gyngor Net (Cyfwerth â Band D) | 54,329.46 | 54,568.51 |
| **Gofyniad Band D y Dreth Gyngor** | **£1,597.01** | **£1,597.01** |
| **Newid Canrannol dros y flwyddyn flaenorol** | **3.90%** | **0%** |

## 2.3 % cynnydd band D y dreth gyngor 2022-23

2.3.1 Mae'r swm sydd i'w dalu o'r dreth gyngor eleni yn £87.1 miliwn. Nid oes cynnydd yn y taliad Band D cyfartalog a godir am elfen y cyngor bwrdeistref sirol, sydd wedi'i rewi ar sail untro ar gyfer 2022-23 yn unig, i gefnogi dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr i ymdopi â'r costau byw cynyddol presennol. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd y setliad gwell na'r disgwyl ac o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd ar ôl ymgynghori ynghylch y gyllideb. Mae praesept Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar gyfer eiddo Band D wedi cynyddu 5%, ac mae praesept cyfartalog y cynghorau cymuned ar gyfer eiddo Band D wedi gostwng 0.78%. Cyfanswm y cynnydd cyffredinol cyfartalog yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D yw 0.72%.




## 2.4 Taliadau'r dreth gyngor Band D a godir yn ôl ardal cyngor cymuned a thref 2022-23

2.4.1 Roedd y tabl blaenorol yn dangos y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band eiddo. Mae praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned yn amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynhyrchu amrywiadau yn y cyfanswm sy'n daladwy gan y deiliad tŷ yn yr un band treth gyngor mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, ac mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o gyfanswm y dreth gyngor a godir, gan gynnwys y cyfanswm sy'n daladwy yn ôl ardal cyngor tref a chymuned ar gyfer 2022-23 ar gyfer eiddo Band D:

| Cyngor Cymuned | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, £ | Cyngor Cymuned/ Tref £ | Yr Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bracla | 1,597.01 | 40.71 | 302.11 | 1,939.83 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1,597.01 | 107.49 | 302.11 | 2,006.61 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 1,597.01 | 77.57 | 302.11 | 1,976.69 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 1,597.01 | 27.81 | 302.11 | 1,926.93 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 1,597.01 | 58.26 | 302.11 | 1,957.38 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 1,597.01 | 32.04 | 302.11 | 1,931.16 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 1,597.01 | 63.36 | 302.11 | 1,962.48 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 1,597.01 | 52.85 | 302.11 | 1,951.97 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 1,597.01 | 43.51 | 302.11 | 1,942.63 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 1,597.01 | 56.97 | 302.11 | 1,956.09 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 1,597.01 | 69.46 | 302.11 | 1,968.58 |
| Cyngor Tref Maesteg | 1,597.01 | 59.02 | 302.11 | 1,958.14 |
| Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 1,597.01 | 20.19 | 302.11 | 1,919.31 |
| Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf | 1,597.01 | 30.77 | 302.11 | 1,929.89 |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | 1,597.01 | 36.01 | 302.11 | 1,935.13 |
| Cyngor Tref Pencoed | 1,597.01 | 47.82 | 302.11 | 1,946.94 |
| Cyngor Tref Porthcawl | 1,597.01 | 48.75 | 302.11 | 1,947.87 |
| Cyngor Cymuned y Pîl | 1,597.01 | 47.81 | 302.11 | 1,946.93 |

| Cyngor Cymuned | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, £ | Cyngor Cymuned/ Tref £ | Yr Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr | 1,597.01 | 25.70 | 302.11 | 1,924.82 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1,597.01 | 32.97 | 302.11 | 1,932.09 |

## 2.5 Ardrethi annomestig (busnes) (NDR)

2.5.1 Ardrethi annomestig yw'r modd y mae busnesau a pherchnogion eiddo annomestig eraill yn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae ardrethi busnes yn dreth leol flynyddol. Mae talwyr ardrethi a pherchnogion pob eiddo annomestig a busnes yn talu ardrethi busnes, ac mae enghreifftiau o eiddo atebol yn cynnwys siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau a ffatrïoedd.

2.5.2 Caiff y lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol ei bennu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried y newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), ac ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 bydd y lluosydd yn parhau yn £0.535. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chodi'r lluosydd eto eleni oherwydd pandemig Covid-19. Bydd y penderfyniad hwn yn sicrhau na fydd cynnydd yn swm yr ardrethi y mae busnesau a thalwyr ardrethi eraill ledled Cymru yn eu talu yn 2022-23, cyn cymhwyso unrhyw ryddhad ardrethi.

| Ardrethi Annomestig (Busnes) | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol (a bennir gan Lywodraeth Cymru) | 53.5c fesul £ | 53.5c fesul £ |

2.5.3 Cyfrifir Ardrethi Annomestig (NDR) drwy gymryd Gwerth Ardrethol (RV) eiddo a'i luosi â 'lluosydd' yr NDR am y flwyddyn dan sylw.

2.5.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn casglu ardrethi busnes ar ran Llywodraeth Cymru. Yna caiff cyfran o'r swm a gesglir ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar boblogaeth oedolion pob awdurdod, fel rhan o'r setliad llywodraeth leol, i dalu am wasanaethau.

2.5.5 Mae gwybodaeth am eiddo sydd wedi'u heithrio rhag talu ardrethi busnes, neu sy'n talu cyfradd is, ar gael yn y cyfeiriad gwefan canlynol:
https://businesswales.gov.wales/cy/rhyddhad-ardrethi-busnes-yng-nghymru


**ADRAN 3.**

# Cyllideb refeniw 2022-23

## 3.1 Cyllideb gros i'r gyllideb net

3.1.1 Fel rhan o broses pennu'r gyllideb a'r dreth gyngor, mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo amcangyfrif o wariant net a elwir yn ofyniad y gyllideb.

Mae'r diagram isod yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb gros a net:





3.1.2 Y Gyllideb Refeniw

Dyma'r cyfrif a ddefnyddir ar gyfer talu am y gwariant ar wasanaethau awdurdod lleol o ddydd i ddydd. Dyma'r gwariant sy'n destun craffu a chyhoeddusrwydd fwyaf gan ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor a chaiff ei ariannu'n rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, o incwm y dreth gyngor.

3.2 **Cyllideb refeniw gros**

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer incwm gros a gwariant ar gyfer 2023-22. Cost gros gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2022-23 yw £459 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan ffrydiau incwm eraill yn cynnwys grantiau eraill gan y Llywodraeth, grantiau a chyfraniadau eraill, derbyniadau cwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.

### O ble y daw'r arian




*Mae Ffioedd, Taliadau a godir ac Incwm Arall yn cynnwys trosglwyddo arian o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (£3.370 miliwn), ailgodi taliadau rhwng cyfarwyddiaethau (£7.341 miliwn), Incwm mewnol gan gynnwys incwm sy'n gysylltiedig â chontractau (£12.650 miliwn), llog derbyniadwy (£951,000) ac incwm gan gwsmeriaid a chleientiaid (£21.957 miliwn).


### O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y cyngor

| 51c | 19c | 18c | 10c | 2c |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig | Y Dreth Gyngor | Grantiau Penodol y Llywodraeth | Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall | Grantiau a Chyfraniadau Eraill |





Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl categori gwariant yn y tabl isod:

### Ble caiff yr arian ei wario - yn ôl categori gwariant



## Ble caiff yr arian ei wario - yn ôl maes gwasanaeth

Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl maes gwasanaeth yn y tabl isod:





**Dalier sylw**:
**Mae Swyddogaethau Eraill ar draws y Cyngor** yn cynnwys Costau Ariannu Cyfalaf, Praeseptau ac Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflogau a phrisiau.
Mae Gwasanaethau Cymorth Canolog y Prif Weithredwyr yn cynnwys: Cyllid, Archwilio, Adnoddau Dynol, TGCh, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Rheoleiddiol, Tai a Digartrefedd, Cymorth Busnes, ac Etholiadau a Phartneriaethau.
**Cymunedau** - yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau ac Asedau, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Adfywio Strategol, yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Landlord Corfforaethol a Phriffyrdd a Mannau Gwyrdd.

3.3 **Cyllideb refeniw net**

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm net a gwariant ar gyfer 2022-23. Cost net gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2022-23 yw £320 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan y grant cynnal refeniw, cyfran o ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yn unig.


### Ariannu'r gyllideb refeniw net

Mae'r siart canlynol yn dadansoddi prif ffynonellau ariannu gwariant net ar gyfer 2022-23:




### Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth

Mae'r siart isod yn dangos y gyllideb refeniw net o £319.514 miliwn yn ôl maes gwasanaeth:




## Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant


Mae'r tabl isod yn rhoi manylion gwariant refeniw net yn ôl categori gwariant:

| | Cyllideb £' miliwn | % |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 197.456 | 43.0% |
| Costau sy'n gysylltiedig â Safleoedd | 13.154 | 2.9% |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 15.904 | 3.4% |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 64.303 | 14.0% |
| Taliadau Trydydd Parti | 93.882 | 20.4% |
| Taliadau Trosglwyddo | 62.238 | 13.6% |
| Gwasanaethau Cymorth | 0.026 | 0.0% |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 12.226 | 2.7% |
| **Cyllideb Gros** | **459.189** | **100** |
| **Grantiau** | | |
| Grantiau penodol y Llywodraeth | (82.473) | |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | (10.933) | |
| Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall | (46.269) | |
| **Cyllideb Net** | **319.514** | |

## Cyllideb refeniw net yn ôl amcan llesiant

Mae cyllideb refeniw net yr awdurdod, sef £319.514 miliwn, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion Llesiant, gwasanaethau craidd a swyddogaethau statudol y

Cyngor. Mae'r siart isod yn rhoi manylion am sut y dyrannwyd hwn ar gyfer 2022-23.




## Dadansoddiad tybiannol o dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth

Ceir dadansoddiad tybiannol o gyllideb refeniw net 202-23 yn seiliedig ar Fand D sy'n cyfateb i £1,597.01 (cynnydd o 0%), fel enghraifft, yn y tabl isod:

| Gwariant Gwasanaeth | Cyllideb Net<br><br>£ | Tybiannol<br>Cyfwerth â Band D<br>£ |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog a Chymorth i Deuluoedd | 25,844,030 | 129.17 |
| Ysgolion | 105,586,000 | 527.75 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 78,434,000 | 392.03 |
| Cymunedau | 28,995,000 | 144.92 |
| Prif Weithredwr | 21,895,000 | 109.44 |
| Cyllidebau ar draws y Cyngor | | |
| Ariannu Cyfalaf | 7,329,120 | 36.63 |
| Ardollau | 8,177,234 | 40.87 |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 670,000 | 3.35 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 16,054,000 | 80.24 |
| Ardoll Prentisiaethau | 650,000 | 3.25 |
| Costau sy'n Gysylltiedig â Phensiynau | 430,000 | 2.15 |
| Premiymau Yswiriant | 1,363,000 | 6.81 |
| Cyllidebau Eraill ar draws y Cyngor | 24,087,029 | 120.40 |
| **Gwariant Net i'w ariannu** | **319,514,413** | **1,597.01** |

## 3.4 Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth

### 3.4.1 Trosolwg o addysg a chymorth i deuluoedd

Mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £131 miliwn ar wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn 2022-2023. Bydd y rhan fwyaf o'r arian hwn yn cael ei wario gan y 59 ysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ysgolion yw'r maes gwariant unigol mwyaf i'r Cyngor. Yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig o £105 miliwn i'w dirprwyo i ysgolion yn 2022-2023, sy'n talu'n bennaf am gyflogau staff addysgu a staff eraill yr ysgol, a chostau rhedeg y cyfleusterau (gwariant refeniw parhaus), mae'r Cyngor eisoes wedi gwario £21.6 miliwn ar waith adeiladu ac adnewyddu ysgolion fel rhan o'n Rhaglen Band A Moderneiddio Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac mae wedi ymrwymo dros dro i £19 miliwn arall fel rhan o'r Rhaglen Band B. Mae'r symiau hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf untro dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith tir a seilwaith, gydag arian cyfatebol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

3.4.1.1 **Refeniw addysg a chymorth i deuluoedd: gwasanaethau a ddarperir**

| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
|---:|---|---:|
| | **Dysgu** | |
| 2,577,690 | Cynhwysiant | 3,044,100 |
| 988,020 | Gofal Plant Cyn Ysgol | 989,050 |
| 460,250 | Gwasanaeth Ieuenctid | 653,330 |
| 387,620 | Cyngor Statudol a Seicoleg | 387,010 |
| 2,401,880 | Iechyd ac Ymddygiad Emosiynol | 2,578,160 |
| 535,020 | Gwella Ysgolion | 604,460 |
| 44,780 | Gwasanaeth Cerdd Ysgolion | 42,260 |
| 129,060 | Dysgu Oedolion | 39,350 |
| **7,524,320** | **Is-gyfanswm** | 8,337,720 |
| | **Partneriaeth Strategol a Chomisiynu** | |
| 3,745,970 | Cynllunio Strategol ac Adnoddau | 3,696,760 |
| 519,580 | Strategaeth a Chymorth Busnes | 533,800 |
| 8,265,696 | Cymorth i Blant a Dysgwyr | 9,602,190 |
| 1,423,170 | Comisiynu a Phartneriaethau | 1,578,820 |
| 1,398,490 | Rheolaeth Strategol | 1,401,690 |
| 307,520 | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | 311,310 |
| **15,660,426** | **Is-gyfanswm** | 17,124,570 |
| | **Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | |
| 104,011,772 | Cyllideb Ysgolion Unigol | 105,586,000 |
| **104,011,772** | **Is-gyfanswm** | 105,586,000 |
| | **Iechyd a Diogelwch** | |
| 384,370 | Iechyd a Diogelwch | 381,740 |
| **384,370** | | 381,740 |
| | | |
| **127,580,888** | **Cyfanswm: Addysg a Chymorth i Deuluoedd** | **131,430,030** |

3.4.1.2 **Refeniw addysg a chymorth i deuluoedd: math o wariant**

| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 2,918,670 | Athrawon | 3,028,130 |
| 265,180 | Prif Swyddogion | 267,370 |
| 11,522,960 | Swyddogion | 12,020,980 |
| 163,550 | Arweinwyr Ieuenctid | 352,270 |
| 439,600 | Swyddogion Soulbury | 446,480 |
| 25,000 | Staff Asiantaeth | 25,000 |
| 984,640 | Hyfforddiant Staff a Chostau Pensiwn Hanesyddol | 984,640 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 160,500 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 160,500 |
| 15,000 | Cynnal a Chadw'r Tiroedd | 15,000 |
| 20,770 | Costau Ynni | 20,770 |
| 24,860 | Rhenti | 27,100 |
| 10,840 | Ardrethi Busnes/Y Dreth Gyngor | 10,840 |
| 1,440 | Gwasanaethau Dŵr | 1,440 |
| 3,100 | Glanhau a Chyflenwadau Domestig | 3,100 |
| 26,450 | Costau sy'n Gysylltiedig ag Adeiladau a Rennir | 26,450 |
| 2,800 | Yswiriant Safleoedd | 2,800 |
| 23,270 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 23,170 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 156,980 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 149,820 |
| 29,170 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 29,170 |
| 6,624,460 | Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol | 7,886,860 |
| 7,160 | Costau Teithio | 6,280 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 474,170 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 470,930 |
| 1,692,116 | Arlwyo | 1,690,830 |
| 11,760 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 11,760 |
| 48,470 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu etc | 72,750 |
| 5,220 | Hysbysebu | 4,720 |
| 741,650 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 759,000 |
| 225,920 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 189,840 |
| 60,570 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 60,190 |
| 6,110 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 6,110 |
| 2,728,280 | Grantiau Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth ADY | 2,866,960 |
| 50 | Yswiriant | 50 |
| 2,578,140 | Costau Refeniw Menter Cyllid Preifat Maesteg | 2,578,140 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 1,701,280 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 1,699,170 |
| 1,394,590 | Mudiadau Gwirfoddol | 1,394,590 |
| 54,230 | Contractwyr Allanol | 54,230 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 959,000 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 907,960 |
| **36,107,956** | **Cyfanswm Gwariant** | **38,256,000** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Incwm** | |
| (6,020,230) | Grantiau | (6,147,690) |
| (1,482,270) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,224,270) |
| (3,863,290) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (3,869,420) |
| (1,173,050) | Ailgodi Taliadau i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (1,170,590) |
| **(12,538,840)** | **Cyfanswm Incwm** | **(12,411,970)** |

| | | |
|---|---|---|
| **23,569,116** | **Cyfanswm: Addysg a Chymorth i Deuluoedd** | **25,844,030** |

3.4.1.3 **Cyllideb refeniw ysgolion: math o wariant**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 73,991,660 | Athrawon | 75,565,890 |
| 28,011,630 | Swyddogion | 28,011,630 |
| 80,300 | Arweinwyr Ieuenctid | 80,300 |
| 1,751,020 | Staff Asiantaeth | 1,751,020 |
| 108,200 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 108,200 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 1,226,500 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,226,500 |
| 186,520 | Cynnal a Chadw'r Tiroedd | 186,520 |
| 2,092,930 | Ynni | 2,092,930 |
| 79,000 | Rhenti | 79,000 |
| 2,079,880 | Ardrethi Busnes/Y Dreth Gyngor | 2,079,880 |
| 333,930 | Gwasanaethau Dŵr | 333,930 |
| 138,400 | Gosodiadau a Ffitiadau | 138,400 |
| 797,700 | Glanhau a Chyflenwadau Domestig | 797,700 |
| 34,300 | Yswiriant Safleoedd | 34,300 |
| 88,000 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 88,000 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 60,500 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 60,500 |
| 188,000 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 188,000 |
| 4,680 | Costau teithio | 4,680 |
| 15,700 | Yswiriant | 15,700 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 3,521,900 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 3,521,900 |
| 4,640,552 | Arlwyo | 4,640,550 |
| 2,700 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 2,700 |
| 329,100 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu, etc | 329,100 |
| 7,000 | Hysbysebu | 7,000 |
| 28,800 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 28,800 |
| 153,700 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 153,700 |
| 1,081,500 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 1,081,500 |
| 2,705,560 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 2,705,560 |
| 8,900 | Ffioedd Cynadleddau | 8,900 |
| 79,100 | Yswiriant | 79,100 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 20,000 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 20,000 |
| 1,382,100 | Contractwyr Allanol | 1,382,100 |
| 200 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 200 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 83,800 | Grantiau Gwisg Ysgol | 83,800 |
| **125,313,762** | **Cyfanswm Gwariant** | **126,887,990** |

| | Incwm | |
|---|---|---|
| (15,939,320) | Grantiau | (15,939,320) |
| (1,491,060) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,491,060) |
| (3,738,470) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (3,738,470) |
| (8,300) | Llog | (8,300) |
| (90,500) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (90,500) |
| (34,340) | Trosglwyddiadau wedi'u Clustnodi sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (34,340) |
| (21,301,990) | **Cyfanswm Incwm** | (21,301,990) |

| | | |
|---|---|---|
| **104,011,772** | **Cyfanswm: Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | **105,586,000** |

### 3.4.2 Trosolwg o wasanaethau cymdeithasol a llesiant

Ar ôl Addysg, maes gwariant mwyaf y Cyngor yw gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i blant ac i oedolion ag anghenion gofal a chymorth. Yn y Gyfarwyddiaeth, canolbwyntir ar lesiant ac annibyniaeth, ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n cefnogi pobl i fyw'r bywydau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ffordd hon o weithio yn arwain at lai o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir i lawer o unigolion a defnydd mwy effeithiol a chost effeithiol o wasanaethau statudol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau, ac mae hyn yn cynnwys gwell cymorth a chanlyniadau ar gyfer atal, ymyrraeth gynnar a llesiant. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r amcan llesiant o 'helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn' ac mae hefyd yn rhan o gynllun trawsnewid y Gyfarwyddiaeth gyda chysylltiad clir â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ein strategaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder yn fwy effeithiol a chefnogi unigolion a theuluoedd i fyw eu bywydau gorau, gan ailfodelu'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn darparu gwasanaethau a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n galluogi pobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a'u teuluoedd er mwyn cychwyn gyda'i gilydd gyda chymorth wedi'i dargedu lle y bo angen.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan anghenion i raddau helaeth ac er mai'r strategaeth hirdymor yw galluogi pobl a theuluoedd i fyw yn dda ac i fod yn gyd-ddibynnol, mae'r ddemograffeg yn dangos bod pobl yn byw'n hirach, yn aml gyda chyflyrau mwy cymhleth nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn byw yn y gymuned a fyddai wedi aros yn yr ysbyty o'r blaen neu wedi mynd i gartref gofal. Mae gofal cymdeithasol plant yn cael ei arwain gan anghenion hefyd a gall y pwysau ariannol i ddiwallu anghenion amrywio'n gyflym iawn. Mae anghenion yn cael eu diwallu a chaiff canlyniadau personol eu cyflawni o fewn y cyllidebau sydd ar gael. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwario cyfanswm o £78 miliwn ar wasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant yn 2022-23.

3.4.2.1 **Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: gwasanaethau a ddarperir**

| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
|---|---|---|
| | **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | |
| 21,316,647 | Pobl Hŷn | 21,975,370 |
| 4,672,323 | Anabledd Corfforol Oedolion/ Nam ar y Synhwyrau | 4,942,970 |
| 16,664,045 | Anableddau Dysgu Oedolion | 17,615,600 |
| 3,654,170 | Anghenion Iechyd Meddwl Oedolion | 3,983,980 |
| 225,720 | Gwasanaethau Gwirfoddol i Oedolion ar Gamddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl | 224,630 |
| 3,369,782 | Rheoli Llesiant, Gweinyddu Canolog a Hyfforddiant | 3,738,000 |
| **49,902,687** | **Is-gyfanswm** | 52,480,550 |
| | **Atal a llesiant** | |
| 5,228,644 | Hamdden a Chwaraeon | 5,233,250 |
| 5,228,644 | **Is-gyfanswm** | 5,233,250 |
| | **Gofal Cymdeithasol Plant** | |
| 19,404,400 | Gofal Cymdeithasol Plant | 20,720,200 |
| 19,404,400 | **Is-gyfanswm** | 20,720,200 |

| | | |
|---|---|---|
| **74,535,731** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **78,434,000** |

3.4.2.2 **Cyllideb gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: math o wariant**

| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 379,960 | Prif Swyddogion | 467,520 |
| 34,444,457 | Swyddogion | 36,253,570 |
| 283,420 | Hyfforddiant Staff | 263,350 |
| 38,955 | Contractwyr Allanol | 49,760 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 231,890 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 231,890 |
| 25,000 | Cynnal a Chadw'r Tiroedd | 25,000 |
| 40,190 | Ynni | 40,190 |
| 224,650 | Rhenti | 224,650 |
| 5,970 | Ardrethi Busnes/Y Dreth Gyngor | 5,970 |
| 11,950 | Gwasanaethau Dŵr | 11,950 |
| 1,000 | Gosodiadau a Ffitiadau | 1,000 |
| 16,100 | Glanhau a Chyflenwadau Domestig | 16,100 |
| 40,060 | Costau sy'n Gysylltiedig ag Adeiladau a Rennir | 40,060 |
| 151,610 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 151,610 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 756,428 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 727,400 |
| 374,960 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 374,960 |
| 20,310 | Costau Teithio | 20,310 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |

| | | |
|---|---|---|
| 583,927 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 648,930 |
| 646,960 | Arlwyo | 504,410 |
| 27,600 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 27,600 |
| 74,528 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu, etc | 100,490 |
| 30,000 | Hysbysebu | 30,000 |
| 854,150 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 819,050 |
| 730,500 | Gwasanaethau a Ddefnyddiwyd a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill gan gynnwys rheolaeth chwaraeon | 726,700 |
| 154,490 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 156,640 |
| 183,228 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 107,300 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 2,941,082 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 3,125,080 |
| 4,662,168 | Sefydliadau Gwirfoddol | 4,662,170 |
| 37,542,696 | Prynu Pecynnau Gofal (Allanol) | 39,574,980 |
| 5,113,392 | Maethu, Mabwysiadu, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig | 5,301,070 |
| 219,040 | Plant sy'n Derbyn Gofal, Gofal a Thaliadau Cymorth | 219,040 |
| 4,514,690 | Taliadau Uniongyrchol | 4,681,690 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 225,000 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 145,000 |
| **95,550,361** | **Cyfanswm Gwariant** | **99,735,440** |
| | | |
| | **Incwm** | |
| (2,677,974) | Grantiau | (2,984,330) |
| (6,730,667) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (6,799,000) |
| | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (10,409,050) |
| (136,810) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau eraill (Mewnol) | (136,810) |
| (887,991) | Trosglwyddiadau a Glustnodwyd sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (972,250) |
| | **Cyfanswm Incwm** | (21,301,440) |

| | | |
|---|---|---|
| **74,535,731** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **78,434,000** |

3.4.3 Trosolwg o gymunedau

3.4.3.1 **Adfywio**

Mae'r gwasanaeth Adfywio yn parhau i edrych ar fuddsoddi mewn asedau a gwasanaethau anstatudol sy'n cefnogi cymunedau, economi ac amgylchedd Pen-y-bont ar Ogwr a'u datblygu. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio swm bach o Gyllid Adfywio Strategol i roi arian cyfatebol ac ysgogi symiau mwy sylweddol o gymorth grant a chyllid yn erbyn prosiectau strategol y Cyngor.

Wrth symud ymlaen, bydd yn cydweithio fwyfwy ar sail ranbarthol â'r naw Cyngor arall sy'n ffurfio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn enwedig mewn meysydd fel trafnidiaeth, datblygu economaidd a chynllunio strategol. Mae'r Fargen Ddinesig yn creu cronfa o £1.2 biliwn ar gyfer buddsoddi yn y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hirdymor hwn yn cael ei dargedu i ganolbwyntio ar gynyddu ffyniant economaidd a rhagolygon swyddi a gwella cysylltedd digidol a thrafnidiaeth. Er mwyn bod â rhan effeithiol yn y Fargen Ddinesig, bydd y Cyngor yn cynnal y buddsoddiad presennol o ran ei dimau cynllunio trafnidiaeth, cynllunio gofodol ac adfywio cyn belled ag y bo modd er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad hwn.  Bydd y Cyngor yn gwario tua £2.3 miliwn y flwyddyn yn cynnal y gwasanaethau hyn, ynghyd â £700,000 yn ychwanegol fel

cyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr i'r Fargen ei hun. Bydd y timau hyn yn sicrhau bod prosiectau adfywio proffil uchel yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys y prosiectau adfywio niferus ym Mhorthcawl fel adfywio Cosy Corner, datblygu siop fanwerthu a'r Strategaeth Creu Lleoedd.

Yn fwy penodol, mae'r Cyngor wedi gwneud ac yn parhau i wneud cynnydd da wrth geisio datblygu ein prif drefi. Mae'r rhain yn cynnwys adfywio'r glannau ym Mhorthcawl, gan gynnwys safle Salt Lake, ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg, a buddsoddi mewn mentrau i wella canol y dref ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys o bosibl adleoli Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i leoliad yng nghanol y dref. Nid arian y Cyngor ei hun yw llawer o'r buddsoddiad hwn, ond mae'n ofynnol i dimau medrus wneud ceisiadau llwyddiannus mewn amgylchedd cystadleuol er mwyn sicrhau bod arian ar gael.

3.4.3.2 **Tir y Cyhoedd (Y Gwasanaethau Stryd)**

Mae'r rhan fwyaf o gyllideb net y Cyngor yn cael ei gwario ar addysg a gofal cymdeithasol – mae'r rhain yn wasanaethau sy’n cael eu hystyried yn werthfawr iawn, ond yn naturiol maen nhw ar gyfer grwpiau penodol yn ein cymuned.  Fodd bynnag, mae gwaith y Cyngor ar dir y cyhoedd yn cael effaith fwy uniongyrchol a gweladwy ar bawb. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i gynnal priffyrdd, parciau a mannau agored, glanhau ein strydoedd, casglu a gwaredu ein gwastraff. Yn 2022-23 mae'r Cyngor yn debygol o dderbyn tua £4 miliwn o grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau tir y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gwastraff, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy a diogelwch ar y ffyrdd.

3.4.3.3 **Cynnal a chadw eiddo ac adeiladau**

Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu ei bortffolio eiddo masnachol, gan nodi cyfleoedd rheoli asedau a'r mecanweithiau sydd eu hangen i sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn incwm. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cyngor yn parhau i waredu asedau nad oes eu hangen arno mwyach i ddarparu gwasanaethau, er mwyn rhoi buddsoddiad pellach yn ein rhaglen gyfalaf.

Mae'r Cyngor wedi dwyn ynghyd ei swyddogaethau rheoli asedau a chynnal a chadw adeiladau, ac mae wedi canoli holl gyllidebau atgyweirio, cynnal a chadw ac ynni adeiladau yn un gwasanaeth 'landlord corfforaethol' yn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi'n well i reoli cydymffurfiaeth, ymgorffori dulliau 'costio oes gyfan' wrth wneud penderfyniadau, rheoli ansawdd y gwaith a wneir gan gontractwyr, a thrwy hynny sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth reoli ein hystâd. Bydd y ffocws hwn ar leihau ein hasedau a'n heffeithlonrwydd ynni yn hanfodol os yw'r Cyngor am gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o sicrhau bod pob corff sector cyhoeddus yn niwtral o ran carbon net erbyn 2030.  Mae strategaeth ddatgarboneiddio ddrafft o'r enw "Pen-y-bont ar Ogwr 2030" wrthi'n cael ei datblygu gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a chaiff ei chefnogi gyda chynllun gweithredu manwl, sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio cyrraedd sefyllfa carbon sero net ym Mhen-y-bont ar Ogwr erbyn 2030. Cyflwynir hwn i'r Cabinet ym mis Mawrth 2022 i'w gymeradwyo.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i adolygu ei brosesau yn 2022-23 gan gynnwys ceisio sicrhau rhagor o effeithlonrwydd gweithredol a phrosesau busnes symlach, o fuddsoddi mewn TG, gwella prosesau caffael a rheoli contractau.

3.4.3.4 **Cymunedau: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | CYMUNEDAU | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Landlord Corfforaethol** | |
| 57,130 | Rheoli Landlord Corfforaethol | 78,880 |
| 568,937 | Cyfanswm Rheoli Cyfleusterau | 577,170 |
| 1,917,427 | Rheoli Asedau Strategol | 1,827,610 |
| 81,580 | Dylunio a Darparu Cyfalaf | 86,240 |
| 58,773 | Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 40,000 |
| **2,683,847** | **Is-gyfanswm** | **2,609,900** |
| | **Rheolaeth Strategol - Cymunedau** | |
| 267,830 | Rheolaeth Strategol - Cymunedau | 270,110 |
| **267,830** | **Is-gyfanswm** | **270,110** |
| | **Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu** | |
| (231,010) | Rheoli Datblygu | (226,800) |
| 997,770 | Cynllunio Datblygu | 1,011,000 |
| 51,940 | Rheoli Adeiladu | 54,620 |
| (275,630) | Polisïau a Datblygiad Priffyrdd | (275,240) |
| **543,070** | **Is-gyfanswm** | **563,580** |
| | **Adfywio Strategol** | |
| 88,080 | Cadwraeth a Dylunio | 88,600 |
| 1,465,284 | Prosiectau a Dulliau Adfywio | 1,435,530 |
| 123,720 | Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu | 126,650 |
| **1,677,084** | | **1,650,780** |
| | **Yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd** | |
| 321,040 | Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd | 322,720 |
| 229,300 | Rheoli Cefn Gwlad | 229,940 |
| 578,556 | Cadernid a Thwf Economaidd | 507,110 |
| 3,340 | Datblygu Gwledig | - |
| 72,120 | Cyflogadwyedd a Mentergarwch | 162,220 |
| 70,410 | Gwasanaethau Morol ac Arfordirol | 74,970 |
| **1,274,766** | | **1,296,960** |
| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **CYMUNEDAU (Parhad)** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
| | **Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff** | |
| 33,740 | Cyfleusterau Cyhoeddus | 33,740 |
| 405,900 | Gorfodaeth | 411,350 |
| 1,531,116 | Glanhau Arall | 1,537,450 |
| 3,402,040 | Gwaredu Gwastraff | 3,789,040 |
| 5,599,533 | Casglu Gwastraff | 5,565,320 |
| **10,972,329** | | **11,336,900** |
| | **Priffyrdd a Mannau Gwyrdd** | |
| 7,230,369 | Priffyrdd a Mannau Gwyrdd | 7,551,090 |
| 9,339 | Gwasanaethau Fflyd | 17,690 |
| 734,124 | Traffig a Thrafnidiaeth | 674,730 |
| 81,030 | Gwasanaethau Peirianneg | 91,540 |

| | | |
|---|---|---|
| 2,163,640 | Parciau, Meysydd Chwarae a Gwasanaethau Profedigaeth | 2,171,880 |
| 679,840 | Rhaglen Tir y Cyhoedd a Seilwaith | 759,840 |
| **10,898,342** | | **11,266,770** |
| | | |
| **28,317,268** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **28,995,000** |

### 3.4.3.5 **Cyllideb cymunedau: math o wariant**

| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **CYMUNEDAU** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 265,290 | Prif Swyddogion | 267,570 |
| 18,383,975 | Swyddogion | 18,039,030 |
| 347,913 | Staff Asiantaeth | 496,860 |
| 15,020 | Hyfforddiant Staff | 10,520 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 2,271,250 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,690,350 |
| 303,598 | Cynnal a Chadw'r Tiroedd | 198,150 |
| 561,620 | Costau Ynni | 547,690 |
| 522,150 | Rhenti | 516,100 |
| 931,760 | Ardrethi Busnes/Y Dreth Gyngor | 940,170 |
| 139,430 | Gwasanaethau Dŵr | 135,670 |
| 10,210 | Gosodiadau a Ffitiadau | 9,210 |
| 191,330 | Glanhau / Domestig | 182,050 |
| 2,500 | Costau sy'n Gysylltiedig ag Adeiladau a Rennir | 2,500 |
| 12,000 | Yswiriant | 12,000 |
| 38,000 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 36,000 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 1,399,630 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan Gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 1,393,870 |
| 1,553,280 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 1,553,280 |
| 3,227,740 | Tocynnau Teithio Consesiynol a Grantiau Trafnidiaeth | 3,227,740 |
| 22,800 | Costau Teithio | 22,800 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 2,263,976 | Offer a Deunyddiau | 2,118,270 |
| 20,510 | Arlwyo | 20,510 |
| **Cyllideb Net 2021/2022 £** | **CYMUNEDAU (Parhad)** | **Cyllideb Net 2022/2023 £** |
| 28,150 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 27,070 |
| 52,840 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu, etc | 98,900 |
| 159,380 | Hysbysebu | 126,820 |
| 1,487,295 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 52,390 |
| 5,286,382 | Gwasanaethau a Ddefnyddiwyd a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 2,611,460 |
| 256,292 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 255,260 |
| 8,620 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 8,620 |
| 193,040 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 288,850 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 148,770 | Sefydliadau Gwasanaethau Uniongyrchol (DLO) | 148,770 |

| | | |
|---|---|---|
| 159,960 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 159,960 |
| 91,430 | Mudiadau Gwirfoddol | 91,430 |
| 16,922,567 | Contractwyr Allanol | 16,986,100 |
| 1,678,784 | Priffyrdd - Strwythurol | 922,400 |
| 44,500 | Priffyrdd - Cylchol | 44,500 |
| 171,580 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 171,580 |
| 274,480 | Priffyrdd - Cynnal a Chadw'r Gaeaf | 274,480 |
| 1,151,311 | Priffyrdd - Goleuadau Stryd | 1,101,220 |
| 75,220 | Priffyrdd - Arolygon Technegol | 25,220 |
| | **Gwasanaethau Cymorth** | |
| 25,000 | Ailgodi Tâl Cyflog Mewnol rhwng yr Uned Drafnidiaeth Integredig a Gweinyddiaeth Grant Bysiau Gwledig | 25,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 2,523,410 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 2,899,350 |
| 1,500 | Prydlesoedd Cyllid | 1,500 |
| **63,224,493** | **Cyfanswm Gwariant** | **57,741,220** |
| | **Incwm** | |
| (10,003,251) | Grantiau | (7,208,130) |
| (138,420) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (127,860) |
| (15,356,210) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (15,393,760) |
| (4,268,530) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (4,263,270) |
| (5,140,814) | Trosglwyddiadau wedi'u Clustnodi sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (1,753,200) |
| **(34,907,225)** | **Cyfanswm Incwm** | **(28,746,220)** |
| | | |
| **28,317,268** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **28,995,000** |

3.4.4 **Trosolwg cyfarwyddiaeth y prif weithredwr**

3.4.4.1 Mae gan y maes gwasanaeth ran allweddol fel darparwr gwasanaethau rheng flaen (e.e. y Dreth Gyngor, Budd-daliadau a Thai) a gwasanaethau cymorth mewnol ar draws y Cyngor. Cyflawnir y swyddogaethau canlynol yn y maes gwasanaeth:

- **Cyllid** - Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n rheoli holl reolaeth ariannol y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol penodol sy'n sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y defnyddir arian cyhoeddus.

- **Archwiliad mewnol** Darperir ein Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol gan wasanaeth ar y cyd rydym yn ei rhannu â Chynghorau Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Mae'r gwasanaeth yn cynnal archwiliadau ac ymchwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal prosesau llywodraethu da – yn enwedig gan ei fod yn ymwneud ag atebolrwydd priodol mewn perthynas ag arian ac adnoddau eraill.

- **Adnoddau Dynol (AD) a Datblygu Sefydliadol (DS)** - Gyda 6,000 a mwy o gyflogeion yn cynnwys cyflogeion mewn ysgolion, mae angen gwasanaeth adnoddau dynol penodol ar y Cyngor. Prif rôl y gwasanaeth yw darparu cyngor, arweiniad a chymorth proffesiynol i reolwyr a staff ar amrywiaeth eang o faterion Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn ogystal â darparu gwasanaethau Adnoddau Dynol ar gyfer talu cyflogau, pensiynau, contractau a gweinyddu absenoldebau. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys hyfforddi a

datblygu, recriwtio a chadw staff, datblygu sgiliau cyflogeion a 'datblygu ein staff ein hunain'. Rydym yn bwriadu buddsoddi mwy mewn recriwtio rhagor o brentisiaid a graddedigion y flwyddyn nesaf.

- **TGCh** - Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn awtomeiddio a digideiddio gwasanaethau yn unol â'n Strategaeth Ddigidol a gymeradwywyd yn ddiweddar, lle mae'n briodol gwneud hynny, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi meysydd blaenoriaeth drwy'r Rhaglen Trawsnewid Digidol a fydd yn helpu i sicrhau arbedion ym mlynyddoedd nesaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cyngor yn gwario tua £5 miliwn ar ei ddarpariaeth gwasanaethau TGCh i gefnogi prif weithgareddau ac ysgolion y Cyngor.

- **Tai ac adfywio cymunedol** - Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r angen am dai ac ymdrin â digartrefedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol hefyd am weinyddu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol, sy'n ceisio cael pobl i barhau i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

- **Gwasanaethau cyfreithiol** - Mae angen i'r Cyngor gynnal cymorth cyfreithiol effeithiol ar gyfer ei holl wasanaethau. Ar adeg pan fo'r Cyngor yn ceisio trawsnewid gwasanaethau, mae'n bwysig cyflwyno'r newidiadau hyn o fewn y gyfraith. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'n uniongyrchol gwasanaethau rheng flaen hefyd fel Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i darperir gan gymysgedd o staff mewnol parhaol ac arbenigedd a brynir o'r sector preifat pan fo angen. Mae bron i hanner ein tîm cyfreithiol mewnol yn canolbwyntio'n benodol ar achosion amddiffyn plant.

- **Gwasanaethau democrataidd** – Rhoi cymorth i brosesau democrataidd er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau, sy'n cynnwys darparu cymorth democrataidd i'r Maer a 54 o aelodau etholedig (Cynghorwyr) sy'n gwneud penderfyniadau, pennu cyfeiriad polisïau a goruchwylio perfformiad cyffredinol y Cyngor. Fel llawer o Gynghorau, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr faer a gwaith y maer yw cadeirio cyfarfodydd y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor yn y gymuned.

- **Caffael** - Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n darparu cymorth caffael ar draws yr holl wasanaethau a ddarparwn er mwyn sicrhau gwerth da am arian ar draws y Cyngor.

- **Gwasanaethau rheoleiddio** - Mae hwn yn wasanaeth cyfunol gyda Chynghorau Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd ac mae'n cynnwys Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu (Alcohol, Gamblo, Diogelwch mewn Meysydd Chwaraeon, Tacsis etc). Mae'r gwasanaethau hyn i gyd yn sicrhau mewn gwahanol ffyrdd bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

- **Cofrestryddion** - Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth cofrestrydd sy'n ymdrin yn bennaf â chofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau. Mae'r gwasanaeth yn cynnal seremonïau Partneriaeth Sifil a Dinasyddiaeth hefyd. Symudwyd prif leoliad gwasanaeth y cofrestryddion o Dŷ'r Ardd i'r Swyddfeydd Dinesig yn ystod 2020-21, gan greu arbedion effeithlonrwydd o

ran costau gweithredu drwy ad-drefnu ystâd y Cyngor a chynhyrchu derbyniad cyfalaf ychwanegol.

- **Y Dreth Gyngor a budd-daliadau** - Mae'r gwasanaeth trethiant yn casglu £85 miliwn a mwy mewn Treth Gyngor o tua 65,000 o aelwydydd ar draws y fwrdeistref sirol. Er bod budd-daliadau'n cael eu hariannu gan lywodraeth ganolog y DU, y Cyngor sy'n gweinyddu Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

3.4.4.2 **Prif weithredwr: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Prif Weithredwr** | |
| 582,739 | Prif Weithredwr | 584,710 |
| **582,739** | **Is-gyfanswm** | **584,710** |
| | **Cyllid** | |
| 270,360 | Archwiliad Mewnol | 270,670 |
| 3,231,410 | Cyllid | 3,276,470 |
| 181,410 | Perfformiad | 167,930 |
| **3,683,180** | **Is-gyfanswm** | **3,715,070** |
| | **Adnoddau Dynol / Datblygu Sefydliadol** | |
| 1,910,679 | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 1,922,200 |
| **1,910,679** | **Is-gyfanswm** | **1,922,200** |
| | **Partneriaethau** | |
| 408,820 | Trawsnewid | 411,560 |
| 1,636,616 | Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ymgysylltu | 1,640,820 |
| **2,045,436** | **Is-gyfanswm** | 2,052,380 |
| | **Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol** | |
| 1,659,500 | Gwasanaethau Cyfreithiol | 1,669,970 |
| 1,577,940 | Gwasanaethau Democrataidd | 1,586,690 |
| 283,220 | Caffael | 285,300 |
| 1,398,250 | Gwasanaethau Rheoleiddio | 1,405,270 |
| **4,918,910** | **Is-gyfanswm** | **4,947,230** |
| | **TGCH** | |
| 3,927,934 | TGCh | 3,816,480 |
| 3,927,934 | **Is-gyfanswm** | 3,816,480 |
| | **Etholiadau** | |
| 103,860 | Etholiadau | 104,100 |
| 103,860 | **Is-gyfanswm** | 104,100 |

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | PRIF WEITHREDWR (Parhad) | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Tai a Digartrefedd** | |
| 3,353,980 | Tai ac Adfywio Cymunedol | 3,351,820 |
| 3,353,980 | **Is-gyfanswm** | 3,351,820 |
| | | |
| | **Cymorth Busnes** | |
| 992,660 | Uned Fusnes | 1,401,010 |
| 992,660 | **Is-gyfanswm** | 1,401,010 |
| **21,519,378** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **21,895,000** |

3.4.4.3 **Cyllideb y Prif Weithredwr: math o wariant**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 185,420 | Prif Weithredwr | 187,030 |
| 353,460 | Prif Swyddogion | 353,580 |
| 15,676,935 | Swyddogion | 16,827,950 |
| 1,151,860 | Aelodau | 1,153,220 |
| 6,000 | Staff Asiantaeth | 6,000 |
| 8,230 | Hyfforddiant Staff | 8,230 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 20,500 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 20,500 |
| 12,010 | Ynni | 12,010 |
| 5,400 | Rhenti | 5,400 |
| 2,290 | Ardrethi Busnes/Y Dreth Gyngor | 2,290 |
| 100 | Gwasanaethau Dŵr | 100 |
| 1,070 | Gosodiadau a Ffitiadau | 1,070 |
| 4,080 | Costau sy'n Gysylltiedig ag Adeiladau a Rennir | 4,080 |
| 15,710 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 15,710 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 109,690 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan Gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 100,880 |
| 22,500 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 22,500 |
| 7,360 | Costau Teithio | 7,360 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 185,130 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 204,640 |
| 1,040 | Arlwyo | 1,040 |
| 770 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 770 |
| 226,530 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu, etc | 264,780 |
| 47,250 | Hysbysebu | 45,560 |
| 162,250 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 162,250 |
| 1,499,610 | Gwasanaethau a Ddefnyddiwyd a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 1,653,080 |
| 3,063,014 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 3,093,010 |
| 1,100 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 1,100 |
| 2,946,060 | Atebion Tai, Meddalwedd a Datblygu | 2,912,940 |
| 5,000 | Maer - Cronfa Lletygarwch | 5,000 |

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | PRIF WEITHREDWR (Parhad) | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 1,973,140 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 2,141,070 |
| 236,129 | Mudiadau Gwirfoddol | 236,130 |
| 6,227,840 | Cefnogi Pobl a Chontractwyr Allanol | 6,188,760 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 41,199,730 | Budd-daliadau Tai | 41,199,230 |
| 75,357,208 | **Cyfanswm Gwariant** | **76,837,270** |
| | **Incwm** | |
| (49,469,840) | Grantiau | (50,193,420) |
| (1,278,830) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,290,470) |
| (1,180,810) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (1,174,640) |
| (1,501,040) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (1,673,700) |
| (407,310) | Trosglwyddiadau wedi'u Clustnodi sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (610,040) |
| (53,837,830) | **Cyfanswm Incwm** | **(54,942,270)** |
| | | |
| **21,519,378** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **21,895,000** |

3.4.5 **Cyllidebau ar draws y Cyngor**

3.4.5.1 Mae Cyllidebau ar draws y Cyngor yn cynrychioli'r elfennau hynny o wariant sy'n berthnasol i'r Cyngor drwyddo draw ac na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i unrhyw wasanaeth penodol.

3.4.5.2 Cyllideb ar draws y Cyngor: **gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Cyllidebau ar Draws y Cyngor** | |
| 7,329,120 | Ariannu Cyfalaf | 7,329,120 |
| 8,447,234 | Ardollau a Phraeseptau | 8,827,234 |
| 14,209,626 | Swyddogaethau Corfforaethol Eraill | 25,187,029 |
| 15,654,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 16,054,000 |
| 1,363,000 | Premiymau Yswiriant | 1,363,000 |
| **47,002,980** | **Cyfanswm: Ar Draws y Cyngor** | **58,760,383** |

3.4.5.3 Cyllideb ar draws y Cyngor: **math o wariant**

| Cyllideb Net 2021/2022 £ | CYLLIDEBAU AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2022/2023 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 430,000 | Cyn-gostau Pensiwn Cyngor Sir Morgannwg Ganol | 430,000 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 420,000 | Cynnal a Chadw Adeiladau | 420,000 |
| 306,640 | Yswiriant Eiddo | 306,640 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 112,000 | Yswiriant Trafnidiaeth | 112,000 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 47,000 | Hysbysebu | 47,000 |
| 268,590 | Ffioedd Mewnol Cynnal a Chadw Adeiladau a Ffioedd Rheoli Hawliadau Yswiriant | 268,590 |
| 13,234,016 | Darpariaethau a gedwir yn ganolog ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau a chostau eraill na ellir eu hosgoi | 24,211,419 |
| 304,000 | Rhyddhad Dewisol Ardreth Annomestig Genedlaethol | 304,000 |
| 650,000 | Ardoll Prentisiaethau | 650,000 |
| 477,830 | Premiymau Yswiriant | 477,830 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 7,797,234 | Ardollau a Phraeseptau (gan gynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân) | 8,177,234 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 15,654,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 16,054,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 5,354,120 | Taliadau Llog | 5,354,120 |
| 2,918,000 | Isafswm Darpariaeth Refeniw | 2,918,000 |
| **47,973,430** | **Cyfanswm Gwariant** | **59,730,833** |
| | **Incwm** | |
| (21,750) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (21,750) |
| (943,000) | Llog | (943,000) |
| (5,700) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (5,700) |
| (970,450) | **Cyfanswm Incwm** | (970,450) |

| | | |
|---|---|---|
| **47,002,980** | **Cyfanswm: Ar Draws y Cyngor** | **58,760,383** |

## ADRAN 4.

# Cyllideb gyfalaf 2022-23

### 4.1 Cyllideb gyfalaf 2022-23

4.1.1 Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor yn gwario arian hefyd ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith neu ddarparu grantiau cyfalaf i unigolion a chyrff allanol. Mae'r Gyllideb Gyfalaf yn cynnwys gwariant ar nifer o brosiectau buddsoddi strategol sylweddol sy'n cefnogi amryw o Amcanion Llesiant (Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus, Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn, a Gwell Defnydd o adnoddau).



Mae'r prif feysydd gwariant arfaethedig ar brosiectau cyfalaf ar gyfer 2022-23 yn

cynnwys:

- Cynlluniau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Hyb Llety Preswyl i Blant
- Gwaith Amlosgfa Llangrallo
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Gosod Wyneb newydd ar y Gerbytffordd ac Adnewyddu Troedffyrdd
- Adfywio Porthcawl
- Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol - Porthcawl
- Rhaglen Ddatblygu Cwm Llynfi
- Hyb Diwylliannol Neuadd y Dref Maesteg
- Rhwydwaith Gwresogi Caerau
- Landlord Corfforaethol - Strategaeth Arbed Ynni
- Hyb Menter - Canolfan Arloesi
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

### 4.2 **Ariannu'r rhaglen gyfalaf**

4.2.1 £69.979 miliwn yw cost ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022-23, fel y nodir yn y tabl isod:

| Cyllid | 2022-23 £ MILIWN | % |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Benthyca â Chymorth | 3.953 | 5.7% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Grant Cyfalaf Cyffredinol | 5.840 | 8.3% |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 20.238 | 28.9% |
| Benthyca Darbodus (heb gymorth) | 7.774 | 11.1% |
| Benthyciad - Llywodraeth Cymru | 1.181 | 1.7% |
| Derbyniadau Cyfalaf | 16.755 | 23.9% |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 13.846 | 19.8% |
| Cyfraniad Refeniw | 0.392 | 0.6% |
| **Cyfanswm Cyllid** | **69.979** | **100%** |


## 4.3 Dyrannu'r gyllideb gyfalaf

4.3.1 Dyrannwyd y Gyllideb Gyfalaf o £69.979 miliwn fel a ganlyn:

| Meysydd Gwasanaeth | 2022-23 £ MILIWN | % |
|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Gan gynnwys ysgolion) | 10.589 | 15.13% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 2.374 | 3.39% |
| Cymunedau - Y Gwasanaethau Stryd | 12.186 | 17.41% |
| Cymunedau - Adfywio a Datblygu | 26.807 | 38.31% |
| Cymunedau - Landlord Corfforaethol | 11.931 | 17.05% |
| Prif Weithredwr - TGCh a'r Gronfa Gyfalaf Gorfforaethol | 0.400 | 0.57% |
| Prif Weithredwr - Tai / Digartrefedd | 2.320 | 3.32% |
| Heb ei ddyrannu | 3.372 | 4.82% |
| **Cyfanswm** | **69.979** | **100%** |

## 4.4 Gwariant cyfalaf yn ôl amcan llesiant

4.4.1 Mae'r siart isod yn rhoi manylion y Gyllideb Gyfalaf yn ôl amcan llesiant:



## ADRAN 5

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol

### 5.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

5.1.1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion yr ystadegau allweddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.




### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Maint | 98.5 milltir sgwâr |
| Poblogaeth (Amcangyfrif 2020) | 147,539 |
| Aelwydydd | 64,766 |
| Pris Tŷ Cyfartalog | £201,020 (Mynegai Prisiau Tai Cymru y DU : Rhagfyr 2021) |
| Busnesau Gweithredol | 4160 |
| Canran y Boblogaeth sy'n Economaidd Weithgar * | 73.8% (Medi 2021) |

*

Rhwng 2010 a 2020, cynyddodd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr 6.5% a disgwylir i hyn barhau a chyrraedd tua 151,600 erbyn 2028, cynnydd o tua 0.3% y flwyddyn. Mae dosbarthiad oedran y Fwrdeistref Sirol yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae canran uwch o bobl 30 i 64 oed, a chanran is o bobl ifanc 15 i 29 oed a phobl 65 oed a hŷn.



Mae twf yn y boblogaeth yn golygu mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys tai, addysg, gwasanaethau amgylcheddol a gofal cymdeithasol. Mae lefel diweithdra hefyd yn allweddol wrth bennu'r galw am fudd-daliadau a ariennir gan y Cyngor fel gostyngiadau'r dreth gyngor neu gonsesiynau wrth dalu am wasanaethau'r Cyngor.

| **Cipolwg ar Ben-y-bont ar Ogwr** | |
|---|---|
| **Yr Etholaeth** | |
| **Cyfanswm yr Etholwyr ar y Gofrestr (1 Chwefror 2021)** | 110,119 |
| **Cynrychiolaeth** | |
| Wardiau | 39 |
| Cynghorwyr | 54 |
| Aelodau Etholaethol y Senedd | 2 |
| Aelodau Rhanbarthol y Senedd | 4 |
| Aelodau Seneddol | 2 |

5.2 Ystadegau gwasanaeth

5.2.1 Nid yw'r data diweddaraf ar gyfer nifer o feysydd gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd gan fod adran Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru (o ble y daw'r data) wedi gorfod newid ei harferion casglu a rhyddhau data, gan ganolbwyntio ymdrechion ar flaenoriaethau o ran dadansoddi ac ystadegau mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw am ystadegau a data i fesur effaith y pandemig COVID-19. Felly, mae ystadegau'r gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer Llyfr Cyllideb 2022-23 ond yn cynnwys data ystadegol sydd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd neu sy’n parhau i gael eu hadrodd gan adran Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru.

5.2.2 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Chymorth i Deuluoedd:


**Gwasanaethau ar gyfer addysg a chymorth i deuluoedd**

| **Rhagamcan o'r boblogaeth ar 30 Mehefin 2022** | **Data Ystadegol** |
|---|---|
| Poblogaeth 3 oed | 1,614 |
| Poblogaeth 3 i 11 oed | 15,365 |
| Poblogaeth 3 i 16 oed | 23,801 |
| Poblogaeth 11 i 15 oed | 8,595 |
| Poblogaeth 11 i 20 oed | 15,911 |
| Poblogaeth 16 oed a hŷn | 121,065 |
| Poblogaeth 16 i 18 oed | 4,925 |
| Poblogaeth 0 i 17 oed | 30,172 |

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 59 o ysgolion (ysgolion babanod, iau, cynradd, uwchradd ac arbennig, cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd) gyda thua 23,000 o ddisgyblion.

| **Math o sefydliad addysgol** | **Nifer** | **Nifer ar y gofrestr (ffurflen 2021 i Lywodraeth Cymru)** |
|---|---|---|
| Ysgolion cynradd | 39 | 11,342 |
| Ysgolion uwchradd | 7 | 7,939 |
| Ysgolion ffydd | 6 | 1,958 |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 5 | 1,725 |
| Ysgolion arbennig | 2 | 404 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 1 | 47 |

Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.



| Gwasanaethau Plant a Ddarperir | Nifer y Plant** | |
|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
| **<u>Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl math o leoliad:</u>** | **390** | **390** |
| Lleoliadau maeth | 285 | 275 |
| Wedi'u lleoli i'w mabwysiadu | 15 | 15 |
| Cartrefi Preswyl | 25 | 20 |
| Wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gydag unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant | 65 | 80 |
| Byw'n Annibynnol | * | * |
| Arall | * | * |

** Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Os oes llai na phump o blant mewn unrhyw grŵp, nid yw'r nifer wirioneddol wedi'i nodi, ac mae'r symbol * wedi'i roi yn lle rhif.
Ffynhonnell Data: StatsCymru.

5.2.4 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau Cymunedau:

### Gwasanaethau ar gyfer cymunedau

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cymunedau i'w gweld yn y tabl isod:

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Y Gwasanaethau stryd** | |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn 2020-21 | 963 |
| Cyfanswm unedau goleuadau stryd | 19,761 |
| | |
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person 2021-22 (targed 2020-21 123KG) | Llinell Sylfaen ar ôl Covid |
| Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (rhagolwg 2021-22) | 70% |
| Canran y gwastraff glanhau strydoedd a baratowyd i'w ailgylchu (rhagolwg 2021-22) | 30% |
| | |
| **Targed ar gyfer gwerth ariannol y prosiectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sydd ar y gweill/yn cael eu datblygu** | |
| 2021-22 | £13 miliwn |
| 2022-23 | £20 miliwn |
| | |
| **Trafnidiaeth a Pheirianneg** | |
| Hyd ffordd sirol (km) | 104 |
| Hyd ffordd sirol A mewn ardal adeiledig (km) | 52 |
| Hyd ffordd B a C (km) | 139 |
| Hyd ffordd B a C mewn ardal adeiledig (km) | 83 |
| Hyd is-ffordd â wyneb caled (km) | 546 |
| Hyd is-ffordd â wyneb caled mewn ardal adeiledig (km) | 443 |

5.2.5 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau'r Prif Weithredwr:


### Prif Weithredwr

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Tai a Digartrefedd** | |
| Canran yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd lle llwyddwyd i atal preswylwyr yr aelwyd rhag dod yn ddigartref (targed 2022-23) | 60% |
| **Gwasanaethau Rheoleiddio** | |
| Nifer y Safleoedd Masnachu ym mis Mawrth 2021 | 5,060 |
| Nifer y Safleoedd Bwyd ym mis Mawrth 2021 | 1,770 |
| **Gwasanaethau Cwsmeriaid** | |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid dros y ffôn rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 | 90,461 |
| **Gwasanaeth** | **Data Ystadegol** |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid drwy e-bost rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 | 32,702 |
| Nifer y trafodion a gynhaliwyd ar-lein gan gwsmeriaid rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 | 62,407 |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Nifer y priodasau a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr 19 a 31 Rhagfyr 2021 | 384 |
| Nifer y safleoedd priodas newydd sydd wedi'u trwyddedu | 1 |
| Nifer y Trwyddedau Safle newydd a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 20 a 31 Rhagfyr 2021 | 12 |
| Nifer y trwyddedau Personol newydd i werthu alcohol a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 | 59 |
| **Adnoddau Dynol** | |
| Gweithlu corfforaethol cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2021 | 2142.81 |
| Gweithlu ysgolion cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2021 | 2223.22 |

Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r angen am dai ac ymdrin â digartrefedd. Mae'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull strategol o atal digartrefedd a chynnig darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner a gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi datblygiadau tai newydd.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 3,729 o aelwydydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 60% o gymharu â 31 Mawrth 2020, a dyma'r ffigur uchaf a gofnodwyd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2015. Roedd hyn yn cyfateb i 27.1 fesul 10,000 o aelwydydd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr oedd 167 o aelwydydd, sef cyfradd o 26.4 fesul 10,000 o aelwydydd.

Mae'r siart isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am gymorth Tai a Digartrefedd:




* Nid oes gwybodaeth ar gael ar gyfer 2020-21, gan fod y galw am ystadegau a data i fesur effaith pandemig COVID-19 wedi cynyddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod newid eu harferion casglu a rhyddhau data, gan ganolbwyntio ymdrechion ar flaenoriaethau o ran dadansoddi ac ystadegau ac felly cafodd y cyfrif o bobl sy'n cysgu allan ar gyfer mis Tachwedd 2020 ei atal dros dro.

Gall digartrefedd gael effaith fawr ar fywyd unigolyn a / neu fywyd ei deulu. Gall fod yn niweidiol i iechyd, cyflogaeth neu gyfleoedd addysg a hyfforddiant unigolyn. Mae bod 'dan fygythiad o ddigartrefedd' yn golygu na fydd gennych gartref yn y 56 diwrnod nesaf.

Yn 2020-21, aseswyd bod 552 o aelwydydd yn y fwrdeistref dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, felly roedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt ac, o'r rhain, cwblhawyd 318 (58%) o gamau atal digartrefedd yn llwyddiannus.

Ym mis Ebrill 2020, sefydlwyd pedwar pod a ddyluniwyd i helpu i gadw pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ddiogel yn ystod y pandemig coronafeirws mewn lleoliadau dros dro ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

5.2.6 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau corfforaethol:

### Corfforaethol

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| Y Dreth Gyngor - Amcangyfrif o nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ar 01/02/2022 | 65,574 |
| Y Dreth Gyngor - Tâl Casgladwy Net 2022-23 | 87,146,456 |
| Ardrethi Annomestig - Nifer yr eiddo masnachol ar 01/02/2022 | 5,425 |
| Ardrethi Annomestig - Tâl Casgladwy ar 01/02/2022 | 52,251,753 |
| Gwariant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2021-22 ar 01/02/2022 | £15,261,028 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 01/02/2022 | 12,731 |
| Cyfanswm nifer yr aelwydydd â disgownt person sengl ar 01/02/2022 | 21,491 |
| Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Tai ar 01/02/2022 | 6,235 |

**ADRAN 6.**

# Ystadegau cymharol Cymru

6.1 Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion ystadegau Cymharol Cymru mewn perthynas â gwariant refeniw a chyfalaf a data poblogaeth a amcangyfrifwyd.

### Cyllidebau  Refeniw Gros Awdurdodau Lleol

| Awdurdod Lleol | 2020-21 | | 2021-22 * | | £ Cynnydd y pen |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ y pen (a) | £ miliwn | £ y pen (b) | |
| Castell-nedd Port Talbot | 366.7 | 2,539 | 388.1 | 2,688 | 149 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 363.2 | 2,379 | 382.2 | 2,591 | 212 |
| Bro Morgannwg | 308.4 | 2,222 | 315.3 | 2,330 | 108 |
| Rhondda Cynon Taf | 642.0 | 2,573 | 659.1 | 2,725 | 152 |
| **Cyfartaledd Pob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru** | | **2,427** | | **2,509** | |

*(a) Mae cyfrifiadau £ y pen 2020-21 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2019.*

*(b)) Mae cyfrifiadau £ y pen 2021-22 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2020.*

* Ffynhonnell Data: Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru 21 Gorffennaf 2021 "Cyllideb Refeniw Awdurdodau Lleol a Rhagolwg Cyfalaf 2021-22". *Mae'r datganiad hwn yn dadansoddi'r gwariant refeniw a chyfalaf y rhagwelir y bydd awdurdodau lleol Cymru yn ei wario yn y flwyddyn ariannol cyn mis Mawrth 2022. Pennwyd y rhan fwyaf o gyllidebau a rhagolygon heb gynnwys unrhyw grantiau Covid-19 ychwanegol gan y llywodraeth ganolog. Mae'n debygol y bydd mwy o wahaniaethau rhwng y ffigurau cyllideb ac alldro ar gyfer 2021-22 nag mewn blwyddyn nodweddiadol. Nid yw gwariant gwasanaethau yn cynnwys yr hyn a ariennir gan incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau, ond mae'n cynnwys yr hyn a ariennir gan grantiau penodol ac arbennig y llywodraeth. Mae gwariant refeniw fel arfer yn net o incwm o ardollau, ond er mwyn dangos y gwariant llawn, caiff ardollau eu sgorio fel gwariant ar gyfer y gwasanaeth tân yn erbyn y Cynghorau perthnasol ac maent wedi'u debydu o wariant yr awdurdod Tân.*

### Alldro Gwariant Refeniw Gros Awdurdodau Lleol

| Awdurdod Lleol | 2019-20 | | 2020-21 * | |
|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ y pen (a) | £ miliwn | £ y pen (a) |
| Castell-nedd Port Talbot | 361.5 | 2,522 | 400.3 | 2,773 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 336.7 | 2,290 | 369.6 | 2,505 |
| Bro Morgannwg | 285.8 | 2,140 | 313.0 | 2,314 |
| Rhondda Cynon Taf | 612.6 | 2,539 | 657.8 | 2,720 |
| **Cyfartaledd Pob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru** | | **2,337** | | **2,561** |

*(a) Mae cyfrifiadau £ y pen 2019-20 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2019.*

*(b) Mae cyfrifiadau £ y pen 2020-21 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2020.*

** Ffynhonnell Data: Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru 28 Hydref 2021 "Refeniw a Gwariant Cyfalaf Alldro Awdurdodau Lleol 2020-21". Mae'r datganiad hwn yn dadansoddi gwariant refeniw a chyfalaf alldro awdurdodau lleol Cymru. Nid yw gwariant gwasanaeth yn cynnwys yr hyn a ariennir gan incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau, ond mae'n cynnwys yr hyn a ariennir gan grantiau penodol ac arbennig y llywodraeth.* Mae'r ffigurau a ddarparwyd ar sail IFRS (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). *At ddibenion y tablau, nid yw'r ffigurau'n cynnwys ardollau'r gwasanaeth tân a ariennir gan y cynghorau bwrdeistref sirol gan fod Llywodraeth Cymru yn adrodd y ffigur hwn ar wahân yn erbyn yr awdurdodau tân.*

## Rhagolwg Gwariant Cyfalaf fesul Awdurdod a Gwasanaeth

| **2021-22** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol /Gwasanaeth *** | **Addysg** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | **Gwasanaethau Eraill (a)** | **Tai** | **Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf a Ragwelir** | **Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (b)** |
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | |
| Castell-nedd Port Talbot | 28.104 | 2.368 | 3.125 | 41.790 | 4.784 | 80.170 | 555 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12.249 | 2.224 | 3.024 | 42.556 | 2.310 | 62.363 | 423 |
| Bro Morgannwg | 51.677 | 0.100 | 3.904 | 13.859 | 38.004 | 107.544 | 795 |
| Rhondda Cynon Taf | 24.735 | 4.703 | 25.635 | 12.718 | 13.522 | 81.313 | 336 |
| **Cyfartaledd Pob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru** | | | | | | **1,684,151** | **535** |

(a) *Yn cynnwys gwariant ar yr amgylchedd, cynllunio, datblygu economaidd, llyfrgelloedd, diwylliant, chwaraeon, diogelwch cymunedol a gwasanaethau eraill.*

(b) *Mae'r cyfrifiadau £ y pen yn defnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 o'r boblogaeth.*

** Ffynhonnell Data: Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru 21 Gorffennaf 2021 "Cyllideb Refeniw Awdurdodau Lleol a Rhagolygon Gwariant Cyfalaf 2021-22". Mae'r gwariant cyfalaf a ragwelir fesul awdurdod yn cynnwys gwariant ar yr amgylchedd, cynllunio, datblygu economaidd, llyfrgelloedd, diwylliant, chwaraeon, diogelwch cymunedol a gwasanaethau eraill. Gall ariannu gwariant cyfalaf gynnwys grantiau a chyfraniadau allanol, a gall lefelau amrywio o Gyngor i Gyngor. Yn ogystal, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n gwbl gywir oherwydd newidiadau i gamau cynlluniau penodol a'r cam datblygu gan fod rhai prosiectau yn ymestyn dros fwy na blwyddyn e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif.*

## Alldro Gwariant Cyfalaf fesul Awdurdod

| Awdurdod Lleol | 2019-20 | | 2020-21* | |
|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (a) | £ miliwn | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (b) |
| Castell-nedd Port Talbot | 39.132 | 273 | 58.769 | 407 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22.822 | 155 | 23.461 | 159 |
| Bro Morgannwg | 53.144 | 398 | 78.360 | 579 |
| Rhondda Cynon Taf | 121.284 | 503 | 102.320 | 423 |
| **Cyfartaledd Pob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru** | **1,192.09** | **383** | **1,249.7** | **394** |

(a) Mae cyfrifiadau £ y pen 2019-20 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2019.

(b) Mae cyfrifiadau £ y pen 2020-21 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth o ganol 2020.

** Ffynhonnell Data: Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru 28 Hydref 2021 "Refeniw a Gwariant Cyfalaf Alldro Awdurdodau Lleol 2020-21".*

### Poblogaethau Amcangyfrifedig

| Awdurdod Lleol | Canol 2018 | Canol 2019 | Canol 2020 |
|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 142,906 | 143,315 | 144,386 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 144,876 | 147,049 | 147,539 |
| Bro Morgannwg | 132,165 | 133,587 | 135,295 |
| Rhondda Cynon Taf | 240,131 | 241,264 | 241,873 |
| **Cyfanswm Cymru** | **3,138,631** | **3,152,879** | **3,169,586** |

**ADRAN 7.**

# Geirfa

## 7.1 Geirfa

**Cyllid allanol cyfanredol (AEF)**
Cyfanswm y cymorth allanol ar gyfer gwariant refeniw awdurdodau lleol nad yw'n cael ei ariannu o'r dreth gyngor. Mae'n cynnwys grant cynnal refeniw a thaliadau o'r arenillion o ardrethi annomestig a ail-ddosbarthwyd.

**Cyllideb**
Y datganiad sy'n diffinio cynlluniau ariannol y Cyngor dros gyfnod penodol, blwyddyn fel arfer.

**Band D**
Y Dreth Gyngor sydd i fod i gwmpasu'r cartref cyffredin. Mae'n cynnwys eiddo gwerth hyd at £123,000 (prisiad yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003). Asesir eiddo mwy newydd ar yr hyn y byddai'r prisiad wedi bod yn 2003.

**Cyfwerth â Band D**
Nifer yr eiddo band D mewn ardal a fyddai'n codi'r un dreth gyngor â nifer wirioneddol yr eiddo ar bob band. Trosir eiddo i sylfaen sy'n cyfateb ag eiddo band D. Er enghraifft, mae un band H yn cyfateb i ddau eiddo band D, gan fod trethdalwr mewn eiddo band H yn talu dwywaith cymaint o dreth gyngor.

**Gwariant cyfalaf**
Nodir y diffiniad at ddibenion cyfalaf yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n nodi bod rhaid cyfalafu gwariant yn unol ag arferion priodol.

Bydd y gwariant y gellir ei gyfalafu yn cynnwys:
1. Caffael, adfer, gwella neu osod tir;
2. Caffael, adeiladu, paratoi, gwella neu ailwneud ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill;
3. Caffael, gosod neu newid peiriannau a cherbydau symudol neu ansymudol;
4. Caffael cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciadau mewn unrhyw gorff corfforaethol
5. Gwaith y bwriedir iddo gynyddu'n sylweddol inswleiddiad thermol adeilad
6. Caffael neu baratoi rhaglen gyfrifiadurol

.

**Cynghorau Cymuned**
Cynghorau Cymuned yw'r cyrff cynrychioli swyddogol mwyaf lleol yng Nghymru, y dewisir eu haelodau bob pedair blynedd i gynrychioli ardal gyfan y cyngor cymuned.

**Cynllun Corfforaethol**
Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth ac yn nodi amcanion gwella allweddol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth ag eraill i

ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae'n amlinellu hefyd sut bydd ein blaenoriaethau'n cael eu datblygu.

**Y Dreth Gyngor**
Dyma ffynhonnell trethiant lleol i'r awdurdod. Codir y dreth gyngor ar aelwydydd yn ei ardal gan yr awdurdod bilio, ac mae'n cynnwys y dreth gyngor ar gyfer awdurdodau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned yn ogystal ag ardoll treth gyngor yr awdurdod ei hun. Dosberthir yr enillion i awdurdodau archebiant ac i'w defnyddio gan eu cronfeydd cyffredinol eu hunain.

**Sylfaen y dreth gyngor**
Sylfaen y dreth gyngor yw mesur capasiti trethadwy cymharol gwahanol ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol, ac fe'i cyfrifir yn unol â'r rheolau rhagnodedig. Mae pob eiddo domestig yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i brisio gan y Swyddfa Brisio. Unwaith iddo gael ei brisio, dyrennir un o'r naw band prisio (Bandiau A i I) i'r eiddo. Caiff pob band ei luosi â ffactor penodol i ddod ag ef i'r hyn sy'n gyfwerth â Band D. Mae sylfaen y dreth yn cynrychioli nifer yr anheddau y codir tâl arnynt yn yr ardal a fynegir fel cyfwerth â Band D, gan ystyried cyfanswm nifer yr esemptiadau, gostyngiadau a gostyngiadau band anabl, gyda'r Sylfaen Dreth net yn cael ei chyfrifo drwy ystyried cyfradd gasglu amcangyfrifedig y Cyngor. Mesurir y Dreth Gyngor fel yr hyn sy'n gyfwerth â 'Band D' fel y safon ar gyfer cymharu lefelau'r dreth gyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol.

**Cynllun CTR**
Disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) ym mis Ebrill 2013. Gosodir y Cynllun CTR yng Nghymru gan Reoliadau a wnaed dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012).

**Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi**
Mae'r rhain yn gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddiben penodol.

**Etholwyr**
Y rhai sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad**.**

**Amcangyfrifon**
Dyma'r symiau y disgwylir iddynt gael eu gwario neu eu derbyn fel incwm, yn ystod cyfnod cyfrifyddu.

**IFRS (Safonau adrodd ariannol rhyngwladol)**
Cyfres o safonau cyfrifyddu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB). Nod IFRS yw darparu fframwaith byd-eang ar gyfer sut mae'r sector cyhoeddus a chwmnïau preifat yn paratoi ac yn datgelu eu datganiadau ariannol. Mae cael safon ryngwladol yn arbennig o bwysig i sefydliadau mawr. Bydd mabwysiadu un set o safonau byd-eang yn symleiddio gweithdrefnau cyfrifyddu drwy ganiatáu i gwmni ddefnyddio un iaith adrodd drwyddi draw. Bydd un safon yn rhoi darlun cydlynol ar gyllid i gwsmeriaid ac archwilwyr hefyd. Ni ddylid drysu rhwng IFRS ac IAS (Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol), sef safonau hŷn y mae IFRS bellach wedi'u disodli.

**Ffioedd a thaliadau**
Mae rhai lefelau ffioedd yn cael eu pennu gan y llywodraeth – fel ffioedd cynllunio a thrwyddedu – tra bod gan gynghorau reolaeth dros eraill, fel taliadau parcio, llogi

adeiladau ac ati. Mae nifer fach o wasanaethau na chaniateir i Gynghorau godi tâl amdanynt – er enghraifft, addysg ysgol ac etholiadau.

**Ardoll**
Mae Rheoliadau Cyrff Ardollau (Cyffredinol) 1992 yn caniatáu i gorff ardollau godi ardoll ar awdurdod perthnasol (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol) yn unol â'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol i dalu gwariant y corff ardollau y byddai pŵer praeseptio perthnasol wedi bod yn arferadwy mewn perthynas ag ef. Diffinnir "pŵer praesept perthnasol" fel a ganlyn: "mewn perthynas â chorff ardollau, unrhyw bŵer dan unrhyw ddeddfiad a fyddai gan y corff hwnnw, ar wahân i adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a gychwynnodd ym 1990 i gyhoeddi praesept, gwneud ardoll ar, neu fod ei dreuliau’n cael eu talu gan gyngor sir neu awdurdod codi tâl”. Yn wahanol i braesept, ni chesglir ardoll gan dalwyr y dreth gyngor.

**Grantiau'r Llywodraeth**
Cymorth gan y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddo asedau i Gyngor yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu'r dyfodol â rhai amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor.

**Gwariant Net**
Gwariant gros namyn incwm.

**MTFS (strategaeth ariannol tymor canolig)**
Cynllun yn mynegi sut y bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddefnyddio ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros gyfnod o 4 blynedd.

**Ardrethi annomestig (NDR)**
Modd i fusnesau lleol gyfrannu at gost gwasanaethau awdurdodau lleol. Cesglir NDR gan awdurdodau bilio ar ran Llywodraeth Cymru, ac yna caiff ei ailddosbarthu ymhlith yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu ar sail Asesiad o Wariant Safonol a'r boblogaeth. Fe'u gelwir hefyd yn 'Ardrethi Busnes’.

**Praesept**
Praesept a wneir gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod bilio gasglu incwm gan dalwyr y dreth gyngor ar eu rhan.

**Benthyca yn unol â’r Cod Materion Ariannol**
Benthyca mwy na'r hyn a gefnogir gan Lywodraeth Cymru y mae'r awdurdod yn penderfynu y gall fforddio ei ad-dalu naill ai o arbedion a gynhyrchir o'r buddsoddiad neu o'r Dreth Gyngor.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB
(01656) 643643